Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru
North Wales Corporate Joint Committee

# IS-BWYLLGOR LLES ECONOMAIDD

## 16 Mai 2025

| | |
|---|---|
| TEITL: | Sefyllfa alldro Refeniw a Chyfalaf BUEGC ar gyfer 2024/25 |
| AWDUR: | Dewi A. Morgan, Pennaeth Cyllid (Swyddog Cyllid Statudol y CBC)<br>Sian Pugh, Pennaeth Cynorthwyol Cyllid |

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Pwrpas yr adroddiad hwn yw darparu sefyllfa alldro terfynol Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (BUEGC) i'r Is-Bwyllgor Lles Economaidd ar gyfer refeniw a chyfalaf yn 2024/25 (Atodiad 1 - 3).

1.2. Cyflwynwyd y sefyllfa alldro, y sefyllfa cronfeydd a'r adolygiad cyfalaf diwedd blwyddyn i'r Bwrdd Portffolio ar 2 Mai 2025.

1.3. Bydd adroddiad (Atodiad A) yn cael ei gyflwyno i'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru i'w gymeradwyo ar 13 Mehefin 2025.

## 2. Y PENDERFYNIADAU A GEISIR

2.1. Nodi adroddiad alldro y BUEGC ar gyfer 2024/25 (Atodiad 1), sy'n cynnwys defnyddio £714,395 o grant Bargen Twf Gogledd Cymru i ddangos sefyllfa niwtral ar gyfer y flwyddyn.

2.2. Nodi sefyllfa cronfeydd BUEGC (Atodiad 2).

2.3. Nodi adolygiad cyfalaf diwedd blwyddyn BUEGC ar 31 Mawrth 2025 (Atodiad 3).

## 3. Y RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

3.1. Hysbysu'r Is-Bwyllgor Lles Economaidd am sefyllfa ariannol y BUEGC ar gyfer refeniw a chyfalaf yn 2024/25.

ATODIADAU:

| | |
|---|---|
| **Atodiad A** | Adroddiad i gyfarfod Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru 13 Mehefin 2025 |
| **Atodiad 1** | Sefyllfa Alldro Refeniw Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru 2024/25 |
| **Atodiad 2** | Cronfeydd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru |

Uchelgais Gogledd Cymru
Ambition North Wales

---

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. Swyddog Monitro:

Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

ii. Swyddog Cyllid Statudol:

Awdur yr adroddiad.